## Datganiad Polisi Cyhoeddus

## Trafnidiaeth a Theithio Llesol

## Ebrill 2026

## Crynodeb

Mae trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn hanfodol bwysig wrth helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth a’u lles. Gall rhwydweithiau trafnidiaeth o'r fath sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu'n dda a bod gwasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau yn hygyrch i bobl hŷn. Heb y rhain mae mwy o berygl y bydd ynysu ac unigrwydd yn effeithio ar les pobl. Mae'n hanfodol bod gan bobl hŷn ym mhob ardal y modd i fynd allan i brynu bwyd, cael sylw meddygol, cael arian parod a thalu biliau, a chael cyswllt cymdeithasol. Mae'r rhain yn nodweddion sylfaenol bywyd cyffyrddus a dylai fod yn flaenoriaeth wrth lunio polisïau trafnidiaeth.

Mae llawer o bobl hŷn yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, fel arfer y bws, i fynd allan a theithio o gwmpas. Mae'r cynllun teithio am ddim ar fysiau wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu pobl hŷn yng Nghymru i gadw eu hannibyniaeth a pharhau i fod yn weithgar, ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i’w gefnogi.

Rydym yn cefnogi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Llywodraeth Cymru[1] gweledigaeth ar gyfer datblygu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon, a byddem yn dymuno gweld integreiddio gwell rhwng y gwasanaeth trafnidiaeth a gwasanaethau allweddol. Mae'r Strategaeth yn blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus o flaen cerbydau modur preifat ac yn nodi'r angen i newid y ffordd rydym yn teithio, gyda llai o geir ar ein ffyrdd, a mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.

Er ein bod yn cefnogi nod y Strategaeth i 'leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir o ddydd i ddydd',[2] Mae rhai pobl yn dibynnu ar gar fel yr unig ffurf ymarferol o drafnidiaeth annibynnol, gan gynnwys pobl hŷn a allai fod yn byw gyda phroblemau symudedd, neu ar gyfer gofalwyr, ac i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin. Gall parhau i yrru fod yn hanfodol i bobl hŷn sydd eisiau mynd allan, cael mynediad at wasanaethau hanfodol fel gofal iechyd, a lleihau'r perygl o ynysu cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021-full-strategy_0.pdf
[2] Ibid.

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae angen i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, hygyrch a chynaliadwy fod ar gael, gyda chysylltiadau da a chysylltiadau rhwydd rhwng y gwahanol fathau o drafnidiaeth a theithio. Yn arolwg blynyddol Age Cymru yn 2025 o bobl 50 oed a throsodd yng Nghymru, cofnodwyd heriau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru,[3] sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig a threfol. Disgrifiodd sawl ymatebydd y gwasanaethau bysiau fel 'gwael', gan nodi bod bysiau'n dod heibio'n llai aml, toriadau i lwybrau bysiau ac annibynadwyedd y gwasanaethau presennol. Roedd diffyg gwasanaethau bws gyda'r nos ac ar ddydd Sul a gwyliau banc hefyd yn broblem gyffredin. Gall pob un o'r materion hyn gael effaith ar allu person i fyw bywyd iach, heini a chymdeithasol.

Mae Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau bws lleol fel rhan o ddiwygio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru 'un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn' ehangach.[4] Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi'r gwasanaethau bysiau lleol sydd eu hangen at ddibenion darparu trafnidiaeth ddiogel, integredig, cynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori ar, a chyhoeddi, Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru.[5]

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a gweithredwyr bysiau i sicrhau sefydlogrwydd darparu a chynnal a chadw gwasanaethau bysiau hanfodol drwy weithredu Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 yn amserol. Rhaid i Drafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl hŷn yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ac ymgysylltu rhanbarthol ystyrlon mewn perthynas â pharatoi a datblygu'r cynllun rhwydwaith bysiau wrth i'r system gael ei chyflwyno ledled Cymru.

Gall mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus gyflwyno problemau corfforol sylweddol i lawer o bobl hŷn. Mae rhai pobl hŷn ond yn gallu cerdded pellteroedd byr a sefyll am gyfnodau byr yn unig, felly byddai mwy o arosfannau bysiau a llochesi gyda seddi yn helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw seilwaith arosfannau bysiau a gorsafoedd bysiau, ac rydym yn croesawu bod Trafnidiaeth Cymru yn datblygu canllawiau seilwaith arosfannau bysiau cenedlaethol i sicrhau safonau cyson mewn arosfannau bysiau a gorsafoedd ledled Cymru.[6] Mae problemau hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffordd yn cynnwys grisiau i blatfformau a diffyg lifftiau. Rydym yn croesawu cynigion ar gyfer gwelliannau mewn gorsafoedd rheilffordd ar gyfer mynediad heb risiau, ystafelloedd aros, llochesi, toiledau, goleuadau a seddi.[7]

Mae'n hanfodol bod prynu tocynnau ac argaeledd gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn hawdd eu cyrraedd ar-lein ac all-lein, gan nad yw rhai pobl hŷn yn gallu cael mynediad at wybodaeth ar-lein ac efallai nad oes ganddynt ffonau

[3] Age Cymru ¦ Arolwg Blynyddol
[4] Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): trosolwg
[5] Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): trosolwg
[6] Ein map ffordd i ddiwygio'r bysiau
[7] https://www.llyw.cymru/cymru-o-blaid-pobl-hyn-ein-strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-html

clyfar. Mae'n bwysig bod amcanion Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol Llywodraeth Cymru[8] yn cael eu gweithredu.

Mae cynlluniau trafnidiaeth gymunedol yn darparu gwasanaeth hanfodol i lawer o bobl hŷn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro lefelau'r cyllid cyhoeddus a ddyrennir i drafnidiaeth gymunedol yn fanwl er mwyn sicrhau sefydlogrwydd o ran darparu a chynnal gwasanaethau hanfodol.

Mae Age Cymru yn cefnogi nodau teithio llesol i bobl hŷn, oherwydd manteision iechyd a chymdeithasol, yn ogystal ag amgylcheddol, y gall hyn eu rhoi i unigolion. Er mwyn galluogi teithio llesol, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig mewn cymunedau yn ddiogel ac yn gynhwysol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y diweddariadau i'r Canllawiau Deddf Teithio Llesol (ATAG).[9] Mae pobl hŷn wedi nodi pryderon am y defnydd o lwybrau a rennir ar gyfer cerdded a beicio, a thraciau beicio mewn arosfannau bysiau lle mae'n rhaid i bobl groesi lonydd beicio i gael mynediad at fysiau. Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau at seddi digonol a thoiledau hygyrch yn y Canllawiau.

Efallai mai'r car yw'r unig ffurf ymarferol o deithio'n annibynnol i lawer o bobl hŷn. Mae'n parhau i fod yn bryder mawr y gall eithriad eang ar gyfer gwasanaethau ariannol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gyfyngu ar fynediad pobl hŷn at gynhyrchion hanfodol gan gynnwys yswiriant modur, gan ei gwneud hi'n anoddach i bobl hŷn siopa o gwmpas am y cynhyrchion gorau. Rhaid i Lywodraeth y DU ailystyried eithriad gwasanaethau ariannol o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran.

I'r sawl sy'n gyrru, mae rhoi'r gorau iddi'n medru bod yn brofiad brawychus. Felly, mae trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch o ansawdd da yn hynod o bwysig er mwyn helpu pobl hŷn i ymdopi gyda'r newid hwn.[10] Ar adeg ysgrifennu, mae'r Adran Drafnidiaeth yn ymgynghori ar symud i ffwrdd o'r system hunan-ddatgan bresennol ar gyfer safonau golwg ar gyfer gyrwyr 70 oed a hŷn, a chyflwyno profion golwg gorfodol i yrwyr 70 oed a hŷn fel rhan o'r broses adnewyddu trwydded yrru.[11]

**Crynodeb o'r cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei Amcanion Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol yn cael eu gweithredu a'u monitro.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a gweithredwyr bysiau i sicrhau sefydlogrwydd darparu a chynnal a chadw gwasanaethau bysiau hanfodol drwy weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 yn amser.

---

[8] https://www.llyw.cymru/amcanion-ar-gyfer-trafnidiaeth-gyhoeddus-hygyrch-chynhwysol?_gl=1*1jddz04*_ga*MTE0NjAzNjkwMi4xNzc5NDM3OTE3*_ga_L1471V4N02*czE3ODI3NDU3NDgkbzI1JGcxJHQxNzgyNzQ3MTk3JGo2MCRsMCRoMA..
[9] https://www.llyw.cymru/canllawiaur-ddeddf-teithio-llesol
[10] Age UK & ILC-UK (2015) The Future of Transport in an Ageing Society. George Holley-Moore and Helen Creighton.
[11] Introducing mandatory eyesight testing for older drivers - GOV.UK

- Rhaid i Drafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl hŷn yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ac ymgysylltu rhanbarthol ystyrlon mewn perthynas â pharatoi a datblygu'r cynllun rhwydwaith bysiau wrth i'r system gael ei chyflwyno ledled Cymru.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus i gefnogi rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, integredig a chynhwysol ledled Cymru i sicrhau bod pobl hŷn yn parhau i fod mewn cysylltiad â chymunedau a gwasanaethau. Mae angen ymgysylltu â byrddau iechyd ledled Cymru i ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol, cydgysylltiedig i alluogi pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau iechyd hanfodol.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r cynllun teithio bws consesiynol ar gyfer pob person hŷn ac anabl.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru sicrhau bod y gwaith ar wella hygyrchedd a chyfleusterau mewn gorsafoedd rheilffordd yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i Drafnidiaeth Cymru sicrhau bod dulliau ar-lein ac all-lein ar gael ac yn hygyrch ar gyfer prynu tocynnau er mwyn teithio ar y trên.
- Mae angen buddsoddiad ychwanegol i wella arosfannau bysiau presennol fel eu bod yn hygyrch i bobl hŷn. Rhaid i Drafnidiaeth Cymru sicrhau bod y canllawiau seilwaith arosfannau bysiau cenedlaethol i sicrhau safonau cyson mewn arosfannau bysiau a gorsafoedd ledled Cymru yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus fod yn hygyrch ac ar gael mewn gwahanol fformatau. Mae angen i wybodaeth ar-lein fod o ansawdd uchel ac yn hawdd i'w defnyddio, tra bod yn rhaid i wybodaeth a ddarperir mewn fformatau eraill fod o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r cyllid a ddyrennir ar gyfer trafnidiaeth gymunedol yn agos a sicrhau sefydlogrwydd o ran darparu a chynnal gwasanaethau hanfodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod modelau llwyddiannus o drafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn cael eu hailadrodd a'u cefnogi gan awdurdodau lleol i sicrhau eu cynaliadwyedd.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod llwybrau cerdded a beicio yn cael eu gwahanu lle bynnag y bo modd a dylent gadw at y Canllawiau Deddf Teithio Llesol. Pan ystyrir eu cyflwyno, rhaid ymgynghori mewn ffordd ystyrlon â phobl anabl a phobl hŷn.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod lonydd beicio wedi'u halinio i ffwrdd o arosfannau bysiau. Mewn mannau ble mae traciau beicio mewn arosfannau bysiau ar hyn o bryd, dylid darparu croesfannau gyda botwm pwyso mewn arosfannau bysiau o'r fath i helpu i sicrhau diogelwch i deithwyr bws a beicwyr.
- Rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu a monitro gweithredu 'egwyddorion creu lleoedd' yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol i helpu i sicrhau bod cymunedau'n hygyrch ac yn gynhwysol ac i hyrwyddo teithio llesol.
- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod strydoedd yn ddiogel ac yn hygyrch, gyda goleuadau da. Rhaid i groesfannau cerddwyr ganiatáu digon o amser i groesi ffyrdd, a rhaid i balmentydd gael eu cynnal yn dda a bod yn rhydd o rwystrau.
- Rhaid i Lywodraeth y DU ailystyried yr eithriad gwasanaethau ariannol o'r gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail oedran, gan gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yn Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Y Llawr Gwaelod, Tŷ’r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2026.